CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 14, 2020 am 7.30 o'r gloch.

www.cyngorllanelltyd.cymru

**AGENDA**

**Gweddi**

**1. Ymddiheuriadau:**

**2. Datgan diddordeb**:

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 10, 2019**

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 10, 2019**

Eitem 4, Eitem 9.a. Llythyr ateb (12/12/2019) oddi wrth Cyngor Cymuned Arthog yn rhoi eu sylwadau ar gymryd cyfrifoldeb o lefydd chwarae.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau (12/12/2019).

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (21/11/2019) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2020 / 2021. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 24, 2020.

Praesept 2018 /2019 - £7,500.00. Praesept 2019 /2020 - £7,500.00.

Anfonwyd manylion o'r Praesept am 2020 / 2021 i'r aelodau.

b. Llythyr (17/12/2019) oddi wrth Cwmni Theatr Bara Caws cyf, Caernarfon. Maent angen cymorth ariannol.

c. Derbyniwyd (4/12/2019) £682.75, ad-daliad TAW oddi wrth HMRC am y cyfnod 1/3/2017 – 31/10/2019.

ch. Derbyniwyd (17/12/2019) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau.

d. Bil (5/1.2020) am £192.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2020.

dd. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

e. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2019: £10,163.68

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (12/12/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Ionawr 8, 2020 am 7.00yh. Bydd Nia Wyn Hughes o Gronfa Loteri Gymunedol yn bresennol yn rhoi gwybodaeth am grantiau i gynghorau cymunedol. Amgáu mae Agenda, Cofnodion cyfarfod Hydref 16, 2019, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Maes y Sioe Amaethyddol ar Fedi 13, 2019.

b. Llythyr (3/1/2020) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i Arddwest Palas Buckingham ar 12 Mai, neu 19 Mai, neu 27 Mai. Os mae diddordeb maent angen gwybod cyn 31/1/2020.

**10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

**11. Materion Brys**

a. Galwad ffôn (21/12/2019) gan unigolyn yn rhoi gwybod bod baw ci / dyn yng nghiosg bws gyferbyn Stad Bro Cymer, Llanelltyd ar ffordd A470.

Rhoddwyd gwybod i Cyngor Gwynedd (21/12/2019) i lanhau'r ciosg.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc

---